

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r rhan fwyaf o fodiwlau MSc yn seiliedig ar ddarllen gwrslyfr gosod unigol dan arweiniad. Bydd angen i fyfyrwyr gwblhau chwe modiwl gwerth 180 o bwyntiau i ennill y radd.

Disgrifiad o'r modiwl

Mae damcaniaeth newidynnau cymhlyg yn treiddio i amrywiaeth eang o bynciau pwysig ac mae'r modiwl hwn yn addysgu pynciau sy'n ddefnyddiol ym maes y gwyddorau damcaniaethol ac yn ddiddorol yn eu rhinwedd eu hunain. Mae'n delio â phynciau yr ymddengys eu bod yn gynnyrch naturiol astudio ffwythiannau dadansoddol un newidyn cymhlyg, er enghraifft damcaniaeth botensial, damcaniaeth hafaliadau gwahaniaethol llinol arferol, trawsffurfiau Fourier a Laplace ac ehangiaadau asymptotig. Dylai'r modiwl hwn, sy'n seiliedig ar *Applied Complex Variables* (J. W. Dettman, ailargraffwyd gan Dover, 1984), apelio i wyddonwyr a pheirianwyr yn ogystal â mathemategwyr.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn ar y cyd â'r [fanyleb gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir ym manyleb gyffredinol y person, dylech feddu ar y canlynol:

- gradd anrhydedd dda mewn mathemateg neu bwnc arall sy'n uniongyrchol berthnasol i gynnwys y modiwl, ynghyd â thystiolaeth o astudiaeth ôl-raddedig llwyddiannus ym maes mathemateg megis gradd uwch mewn mathemateg
- profiad o weithio mewn maes sy'n uniongyrchol berthnasol i'r modiwl
- y gallu i ddarparu tystiolaeth o ddealltwriaeth lwyr o gyfran fawr o'r deunydd a gaiff ei astudio yn y modiwl (er enghraifft, drwy gwblhau ymarfer marcio cyn y cyfweiliad yn llwyddiannus) a dangos y gallu a'r parodrwydd i ddatblygu dealltwriaeth o weddill y deunydd yn gyflym
- y gallu i gyflwyno mathemateg yn electronig ac anodi dogfennau PDF
- y gallu a'r parodrwydd i ddefnyddio cyfleusterau e-ddysgu, megis:
 - gwefan y modiwl, a gwefannau eraill y Brifysgol, i lawrlwytho deunyddiau hanfodol a chael gafael ar wybodaeth arall
 - systemau'r Brifysgol er mwyn monitro cynnydd y myfyrwyr
 - e-bost a fforymau'r Brifysgol er mwyn cyfathrebu â'r myfyrwyr, tiwtoriaid a staff eraill mewn modd anghydamserol
 - meddalwedd tiwtorialau ar-lein y Brifysgol (rhoddir hyfforddiant)
 - marcio aseiniadau myfyrwyr a gyflwynir yn electronig ar ffurf PDF ar y sgrin

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- PhD mewn maes perthnasol
- profiad o addysgu yn y maes pwnc arbenigol perthnasol ar lefel ôl-raddedig neu drydedd flwyddyn.

Bydd gofyn i chi farcio aseiniadau'n electronig. Bydd hyn ar ffurf PDF

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	4
Dull cyflwyno aseiniadau:	1b
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safon:	15
Band cyflog:	2
Nifer amcangyfrifedig yr oriau fesul wythnos addysgu:	2.5